

**BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL
CAERDYDD A BRO MORGANNWG**

**ADRODDIAD
BLYNYDDOL
2017 – 2018**

CYNNWYS

	Tudalen
RHAGAIR	4
BETH YW DIOGELU?	5
CYFLWYNIAD	
i. Beth yw Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg?	6
ii. Y sefyllfa ar hyn o bryd	6-7
iii. Adroddiad Blynnyddol	7
AELODAETH	
i. Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol	8-9
ii. Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol	10-11
DIOGELU PLANT:	
i. Blaenoriaethau a Nodir	12
ii. Mynd i'r Afael â'r Blaenoriaethau	12-17
iii. Gweithgarwch Arall a Datblygu'r Bwrdd	18-19
DIOGELU OEDOLION:	
i. Blaenoriaethau a Nodir	20
ii. Mynd i'r Afael â'r Blaenoriaethau	20-22
iii. Gweithgarwch Arall a'n Hagenda	23-24
CYDWEITHIO	
i. Agenda Diogelu Oedolion a Phlant	25
ii. Gwaith yr Is-Grwpiau	26-33
iii. Cydweithio gyda byrddau diogelu eraill a Llywodraeth Cymru	34
RHEOLI ADNODDAU	
i. Cyllideb y Bwrdd	35
ii. Gwariant y Bwrdd	35
CYSYLLTU Â NI	36

RHAGAIR

Rydym yn falch o allu cyflwyno'r Adroddiad Diogelu Blynyddol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ar bob lefel, ond yn benodol yn y rheng flaen, mae pobl broffesiynol yn dod ar draws pwysau atgyfeirio sy'n cynyddu'n sylweddol a chymhlethdodau heriol iawn sy'n galw mewn ffordd wahanol ar arbenigedd a sgiliau; tuedd a atseinir gan ein llysoedd lleol ac yn genedlaethol. Mae Byrddau Diogelu o reidrwydd yn esblygu o amgylch ffenomena fel; Ffiniau Sir a'u cysylltiad â CRhB, meithrin perthnasau amhriodol ar-lein gydag oedolion agored i niwed a masnachu pobl. Mae rhwydweithiau mwy cymhleth o drais â nodweddion aml-ffactor yn [aml](#) yn ymwneud â lleiafrifoedd hynod amrywiol ac yn dod yn fwy cyffredin yn ein Rhanbarth.

Mae'r patrymau newidiol hyn â'r niferoedd cynyddol yn fygythiad go iawn i effeithiolrwydd o ran diogelu. Yn y cyd-destun hwn, mae penderfyniad ac effeithiolrwydd ein staff rheng flaen ym mhob lleoliad yn glodwiw ac yn galonogol. Fodd bynnag, ni allwn esgus bod hyn yn gynaliadwy heb ragor o ddatblygu a buddsoddi sylweddol; mae pris ar ddiogelu da.

Ond mae uchafbwyntiau amlwg ac mae llawer i fod yn hyderus yn ei gylch o ran ansawdd yr arweinyddiaeth a phroffesiynoldeb, sy'n gwella ar bob lefel. Adlewyrchir hyn yn natur ddeinamig newydd y ddau fwrdd, sy'n cael eu cefnogi gan Uned Fusnes sydd bellach wedi'i sefydlu'n iawn. O ran hyn, mae'r digwyddiadau datblygu eu hunain wedi chwarae rhan bwysig iawn yn gosod ein cyfeiriad ac yn egnïo partneriaid o amgylch gweledigaeth glir.

Drwy gydnabod cymhlethdod cynhenid Adolygiadau Arfer Plant ac Adolygiadau Arfer Oedolion a'r anawsterau wrth lunio adroddiadau terfynol, rydym wedi cryfhau ein dull yn sylweddol i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae'n amlwg bod hyn yn dechrau dwyn ffrwyth.

Rydym yn falch o'n strategaeth CRhB sefydledig a chreadigol ac rydym yn creu cysylltiadau'n genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran maes sy'n newid yn gyflym. Rydym wedi llwyddo i gynnal deialog gyda'r Mosgiau lleol sy'n fuddiol i'r naill barti a'r llall ac yn sail i lefel gynyddol o ymddiriedaeth a hyder. Yn olaf, rydym yn falch o arwain yr adolygiad o Weithdrefnau Amddiffyn Oedolion a Phlant Cymru Gyfan ac o allu adrodd ei fod yn datblygu ar gyflymder priodol, gyda chefnogaeth dda gan gydweithwyr proffesiynol ar draws pob asiantaeth a rhanbarth.

Er y gallwn fod yn falch o'n cyflawniadau hyd yn hyn, rydym yn cydnabod bod llawer iawn mwy i'w wneud. Rydym yn hyderus fod yr Uned Busnes Diogelu bellach yn cefnogi'r byrddau a'u gweithgarwch cysylltiedig gyda llwyddiant amlwg. Rydym mewn sefyllfa gryfach o lawer o ran darparu tystiolaeth o'r gwaith rydym wedi'i wneud yn dilyn ein meysydd o flaenoriaeth. Credwn y gallwn nawr symud ymlaen ar y cyflymder angenrheidiol i gyflawni gweithgareddau â ffocws ac i gynnal a pharhau i ddatblygu perthnasau cryfion gyda phlant, oedolion, teuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol, ynghyd ag asiantaethau, partneriaethau a Byrddau eraill.

Tony Young

Lance Carver



Cyd-gadeirydd a Chyfarwyddwr GC Cyngor Caerdydd
Chyfarwyddwr GC Bro Morgannwg

Cyd-gadeirydd a

BETH YW DIOGELU?

Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Dylai pob plentyn ac oedolyn mewn perygl gael eu hamddiffyn rhag cael eu brifo neu eu rhoi mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth, beth bynnag yw eu hoedran, rhyw, crefydd neu ethnigrwydd.

Caiff plentyn ei gam-drin neu ei esgeuluso pan fo rhywun yn peri niwed, neu'n methu gweithredu i atal niwed.

Gallai plant ac oedolion sydd mewn perygl fod mewn perygl o gael eu cam-drin mewn lleoliad teuluol, sefydliad neu gymuned gan y rhai maent yn eu hadnabod neu, yn fwy anaml, gan ddieithryn.

Oedolyn mewn perygl

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 yn dweud bod oedolyn mewn perygl yn oedolyn sy'n profi camdriniaeth neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un ai a yw'r awdurdod lleol yn bodloni unrhyw rai o'r anghenion hynny neu beidio) ac o ganlyniad i'r anghenion hynny yn methu ag amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl o hyn.

Camdriniaeth

Ystyr "Camdriniaeth" yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw le arall) ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys:-

- cael arian neu eiddo arall wedi'i ddwyn;
- cael eich twyllo;
- cael eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall.

CYFLWYNIAD

BETH YW BYRDDAU DIOGELU RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG?

Mae dau fwrdd diogelu rhanbarthol sy'n ymwneud ag ardaloedd bwrdd iechyd Caerdydd a Bro Morgannwg a'r awdurdodau lleol; mae un yn gyfrifol am ddiogelu oedolion yn yr ardal ac un ar gyfer diogelu plant.

Cafodd Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (BDPRh) Caerdydd a Bro Morgannwg ei sefydlu ym mis Ebrill 2013 o ganlyniad i gyfuno'r ddau fwrdd diogelu plant a oedd yn gweithio yn ardaloedd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd, a fu ar waith ers 2007. Sefydlwyd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol (BDORh) Caerdydd a Bro Morgannwg yn 2015. Eto, ffurfiwyd y bwrdd rhanbarthol hwn yn sgil uno'r ddau fwrdd gwahanol ym mhob un o'r ardaloedd cyngor lleol.

Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas Caerdydd yn cynnal yr Uned Busnes Diogelu sy'n cefnogi gweithrediad y ddau fwrdd.

Yn y ddau achos, cafodd y Byrddau Rhanbarthol hyn eu sefydlu er mwyn adlewyrchu'r agenda ddiogelu genedlaethol newydd yng Nghymru a'r blaenoriaethau sy'n llifo o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (GCLI).

Er bod cylch gorchwyl pob bwrdd rhanbarthol yn wahanol yn nhermau ffocysu arbenigedd, adnoddau a sylw ar anghenion plant ac oedolion a bod aelodaeth pob un yn adlewyrchu'r anghenion gwahanol hynny, mae'r ddau fwrdd yn dod â'r prif asiantaethau ynghyd sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion rhag camdriniaeth, esgeulustod a ffurfiau eraill ar niwed. Er bod gan y ddau fwrdd hunaniaeth wahanol a bod pob un yn gofyn am arbenigedd proffesiynol gwahanol er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'r ddau fwrdd hefyd yn rhannu heriau a dulliau gweithredu cyffredin o ran cyflawni cyfrifoldebau diogelu, yn arbennig mewn perthynas â'r unigolion hynny sy'n pontio o fod yn blant i fod yn oedolion. Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac ymgysylltu, mae'r byrddau'n cael eu rhedeg gefn-wrth-gefn gydag eitemau agenda priodol yn cael eu rhannu.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Mae ein parodrwydd i'n herio ein hunain a chanolbwyntio ein gafael strategol ar flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg (er enghraifft, Ffiniau Sir: 'Ar Gwrs Atebolrwydd', adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o esgeuluso pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yr ymchwiliwyd iddo dan yr enw 'Operation Jasmine'; Demensia a Masnachu Pobl) wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o baratoi'r Ddeddf GCLI. Datblygwyd y cynlluniau blynyddol ar gyfer 17/18 cyn cael adborth gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar yr adroddiad blynyddol cyntaf. Cydnabyddir bod angen datblygu'r cynlluniau hyn a bod angen camau gweithredu manylach yn y dyfodol. I hwyluso'r gwaith cynllunio, cynhaliwyd dau ddiwrnod datblygu a datblygwyd camau gweithredu mwy penodol ar gyfer y dyfodol.

i. Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant – Synergedd a Phartneriaethau

Mae'r ddau fwrdd yn cael eu hwyluso trwy gynnal cyfarfodydd y byrddau yn olynol o dan gadeiryddiaeth 'Cyd-gadeiryddion' a fydd yn rhannu cyfrifoldeb ar gyfer y ddau fwrdd. Mae hyn yn galluogi rhywfaint o ddilyniant (roedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd yn gadeirydd ar y BDORh o fis Gorffennaf 2015 i fis Ebrill 2017 ac yn un o ddau is-gadeirydd ar gyfer y BDPRh o 2013 i fis Ebrill 2017) ac arbenigedd a rennir. Mae hefyd yn cydnabod ysbryd a bwriad y Ddeddf GCLI fel yr amlinellir isod:

“Mae un set o reoliadau ar gyfer swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant fel ei gilydd. Mae hyn yn unol â'r ymrwymiad i ddarparu fframwaith ar gyfer gwella trefniadau diogelu i bawb a bod unrhyw rwystrau artiffisial sy'n seiliedig ar oedran yn dechrau cael eu torri i lawr. Mae'n cydnabod y bydd Byrddau'n gweithredu ochr yn ochr, y dylai trefniadau ar gyfer y Byrddau ganiatáu rhannu, cyfnewid a chydweithio ar faterion o bryder i'r naill a'r llall, ac y dylid cefnogi hyn lle bynnag y bo'n bosibl gan swyddogaethau a gweithdrefnau cyffredin.” (Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)

Daeth y trefniadau newydd hyn i rym ym mis Tachwedd 2017. Mae aelodau'r bwrdd wedi adolygu'r trefniadau hyn yn sgil hyn fel rhan o'r diwrnodau datblygu unigol a chyfarfodydd bwrdd dilynol. Daeth partneriaid i'r casgliad fod y trefniadau newydd nid yn unig yn arbed amser ac ailadrodd, ond hefyd yn rhoi'r cyfle i ni fynd i'r afael â'r amrywiaeth gynyddol o faterion sy'n effeithio ar oedolion a phlant; felly ystyriwyd yn unfrydol y dylai'r trefniant hwn barhau.

ii. Uned Busnes Diogelu

Mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Dinas Caerdydd yn cynnal yr Uned Busnes Diogelu (SBU) ar gyfer y Byrddau ac mae wedi'i hariannu ar sail y fformiwla genedlaethol. Goruchwylir yr SBU gan Reolwr Gweithredol Caerdydd dros Ddiogelu ac Adolygu a chaiff ei chefnogi yn ei gwaith o ddydd i ddydd gan Reolwr Busnes yr uned.

Mae'r Rheolwr Gweithredol dros Ddiogelu ac Adolygu yng Nghaerdydd, sydd newydd ei benodi, y Rheolwr Gweithredol dros Ddiogelu ac Adolygu yn y Fro, sydd newydd ei benodi, a'r Rheolwr Busnes dros y Byrddau wedi dod ag egni, ymrwymiad a ffocws newydd i Fusnes y Bwrdd. Mae gan y Byrddau Uned Busnes Diogelu hollol weithredol ers mis Medi 2017, sy'n cynnwys Rheolwr Busnes Strategol, dau Gydlynnydd Busnes Strategol pwrpasol a Gweinyddwr Busnes.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adolygu'r blaenoriaethau strategol, camau gweithredu allweddol a cherrig milltir ar gyfer y cyfnod Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018. Mae'n cymryd i ystyriaeth y gofynion presennol a roddir ar Fyrddau Diogelu gan Lywodraeth Cymru a'r arweiniad statudol mewn perthynas â Rhan 7 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(DGCLI\)](#). Dan y ddeddfwriaeth honno, mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf i roi tystiolaeth o gynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol y flwyddyn flaenorol. Mae'r Ddeddf, a ategir gan y rheoliadau, yn darparu ar gyfer pryd a sut y caiff y cynlluniau ac adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ac yn rhagnodi cynnwys y cynlluniau blynyddol a'r adroddiadau blynyddol. Bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn trafod pob un

o'r 14 pwynt a amlinellir ym mharagraff 209 yn y canllaw DGCLI, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Rhifyn I – Cyflwyniad a Throsolwg'.

AELODAETH

i. BWRDD DIOGELU PLANT RHANBARTHOL

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Ran 7 (Adran 134 (2) Deddf GCLI 2014). Mae'r rhestr aelodau isod:

Enw	Swydd
Awdurdod Lleol	
Tony Young CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd
Lance Carver CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg
Irfan Alam	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant, Caerdydd
Rachel Evans	Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Alys Jones	Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd
Natasha James	Rheolwr Gweithredol Canlyniadau Diogelu a Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd	
Sheila Harrison	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Linda Hughes-Jones	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Katina Kontos	Meddyg Diogelu Plant a Enwir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	
Jayne Elias	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Susan Morgan	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Heddlu De Cymru	
Steve Murray	Uwch-arolygydd ar gyfer Uned Reoli Sylfaenol y Dwyrain, Heddlu De Cymru
Claire Evans	Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol Ganolog, Heddlu De Cymru
Beth Aynsley	Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Jane Foulner	Uwch-swyddog Prawf ar gyfer y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	
Victoria Harris	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Addysg	
Jacqueline Turner	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd
David Davies	Pennaeth Cyflawniad i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, Bro Morgannwg

Deborah Herald	Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Riverbank, Caerdydd
Anna Davies	Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg
Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Linda Davies	Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Alison Mott	Meddyg Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fisâu a Mewnfudo	
Kala Smith	Arbenigwr Technegol ac Arweinydd Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches Fisâu a Mewnfudo y DU
Rhiannon Chatterton	Pennaeth Lloches Fisâu a Mewnfudo y DU
Tai	
Pam Toms	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Bro Morgannwg
Kate Hustler	Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Tai, Caerdydd
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid	
Paula Barnett	Rheolwr GTI Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Bro Morgannwg
Daniel Jones	Rheolwr GTI Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Caerdydd
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	
Nikki Harvey	Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Trydydd Sector	
Tracy Holdsworth	Rheolwr Gwasanaeth, NSPCC
Emma Phipps Magill	Rheolwr Gwasanaeth, NYAS
Liz Baker	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardo's
Morgan Fackrell	Prif Weithredwr Cymorth i Fenywod Caerdydd
Ymgynghorwyr yn Bresennol	
Sheila Davies	Rheolwr Gweithredol dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Tîm Cyfreithiol Cymunedol, Caerdydd

Cynrychiolwyr ychwanegol o'r Is-grwpiau canlynol:

- **Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Arfer Oedolion**
- **Is-grŵp Hyfforddi**
- **Is-grŵp Archwilio**
- **Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
- **Is-grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau**
- **Grŵp Strategol Thematig (Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)**
- **Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl yr angen)**

ii. BWRDD DIOGELU OEDOLION RHANBARTHOL

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddwyd dan Ran 7 (Adran 134(2) Deddf GCLI 2014). Mae'r rhestr aelodau isod:

Enw	Swydd
Awdurdod Lleol	
Lance Carver CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg
Tony Young CYD-GADEIRYDD	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Caerdydd
Amanda Phillips	Pennaeth Adnoddau a Diogelu, Bro Morgannwg
Suzanne Clifton	Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Bro Morgannwg
I'w gadarnhau	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd
Alys Jones	Rheolwr Gweithredol Diogelu ac Adolygu, Caerdydd
Natasha James	Rheolwr Gweithredol Canlyniadau Diogelu a Gwasanaeth, Bro Morgannwg
Gwasanaeth Iechyd Gwladol	
Ruth Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Sheila Harrison	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Linda Hughes-Jones	Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Jodie Denniss	Nyrs Arweiniol, Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
Suzanne Wood	Ymgynghorydd, Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	
Jayne Elias	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Tîm Diogelu Cenedlaethol, Iechyd y Cyhoedd	
Linda Davies	Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Heddlu De Cymru	
Claire Evans	Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol Ganolog, Heddlu De Cymru
Steve Murray	Uwch-arolygydd, Uned Reoli Sylfaenol y Dwyrain, Heddlu De Cymru
Beth Aynsley	Rheolwr Annibynnol Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu De Cymru
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	
Victoria Harris	Pennaeth Uned Gyflenwi Leol Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Carchar EM Caerdydd	
Danny Khan	Llywodraethwr

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru	
Nikki Harvey	Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	
Shaun Moody	Rheolwr Grŵp Diogelwch a Phartneriaethau Cymunedol
Trydydd Sector	
Rachael Nicholson-Wright	Gweithredu ar Gam-drin Henoed
Darparwyr Gofal	
Brian West	Cadeirydd Cartrefi Gofal Bro Morgannwg / Fforwm Gofal Cymru
Mandy Evans	Darparwyr Gofal Anabledd Dysgu a Byw â Chymorth
Ymgynghorwyr yn Bresennol	
Carolyn Goodall	Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg

Cynrychiolwyr ychwanegol o'r Is-grwpiau canlynol:

- **Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Arfer Oedolion**
- **Is-grŵp Hyfforddi**
- **Is-grŵp Archwilio**
- **Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
- **Is-grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau**
- **Grŵp Strategol Thematig (Dd/B)**
- **Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (yn ôl yr angen)**

DIOGELU PLANT:

i. BLAENORIAETHAU A NODIR

Fel y rhestrir yng Nghynllun Blynyddol 2017-2018 BDPRh nododd y Bwrdd y blaenoriaethau canlynol:

- 1. Effeithiolrwydd y System Amddiffyn Plant**
- 2. Plant ar gyrion y System Amddiffyn Plant**
- 3. Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth**
- 4. Gweithrediadau'r Bwrdd**

ii. MYND I'R AFAEL Â'R BLAENORIAETHAU

O dan bob un o'r blaenoriaethau hyn, rhestrodd y BDPRh nifer o ganlyniadau ac amcanion er mwyn sicrhau yr aethpwyd i'r afael â'r blaenoriaethau yn effeithiol ac yn llwyddiannus. Mae'r BDPRh yn falch o allu rhoi tystiolaeth o gynnydd sylweddol yn erbyn amcanion allweddol, er bod y Bwrdd hefyd yn cydnabod nad yw rhai meysydd wedi derbyn y sylw sydd ei angen. Yn dilyn y Diwrnod Datblygu ar 12 Ionawr 2017 ac ar ôl ystyried sylwadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, mae aelodau'r BDPRh wedi sicrhau bod y blaenoriaethau hyn wedi'u hasesu sydd wedi galluogi'r Bwrdd i ddatblygu cynllun blynyddol â mwy o ffocws o lawer ar gyfer 2018-2019 gyda champau gweithredu CAMPUS ar gyfer y dyfodol.

1. Effeithiolrwydd y System Amddiffyn Plant

Set Ddata Amlasiantaethol

Yn 2017-2018, ceisiodd y BDPRh lunio adroddiad perfformiad amlasiantaethol a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r BDPRh yn chwarterol. I fynd i'r afael â'r blaenoriaeth hon, mae'r Bwrdd wedi dechrau sefydlu set ddata graidd o fesurau perfformiad allweddol â mwy o ffocws a chasglu data. Comisiynodd y BDPRh weithiwr proffesiynol o Dîm Datblygu Sefydliadol Caerdydd i gynnal adolygiad a chyflwyno adroddiad o argymhellion yn seiliedig ar sut y gellid cyflawni'r amcan hwn orau. Lluniwyd adroddiad ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017. Yn ystod yr adolygiad hwn, gwnaed cysylltiadau â Byrddau Diogelu eraill yn Lloegr (Byrddau Diogelu Darlington a Manceinion Fwyaf) er mwyn casglu enghreifftiau o sut mae hyn wedi'i gyflawni mewn ardaloedd eraill. Ceisiwyd enghreifftiau hefyd o Fyrddau eraill yng Nghymru. Penderfynodd y BDPRh, er mwyn i'r gwaith symud yn ei flaen, y byddai angen datblygu set ddata a fframwaith data cyffredin. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn bwrw 'mlaen â'r gwaith hwn. Cytunwyd y byddai'r cam allweddol hwn yn aros ar y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-2019 gyda'r nod o gael trosolwg cychwynnol o weithgarwch diogelu gan aelod-asiantaethau, plant a theuluoedd.

Pryder Diogelu Meddygfa

Codwyd mater ym mis Gorffennaf 2017 yn ymwneud â'r taliadau i Feddygon Teulu am fynychu cyfarfodydd ac ysgrifennu adroddiadau. Trafodwyd y mater hwn ar lefel Bwrdd a phenderfynwyd y byddai cynrychiolwyr BIP Caerdydd a'r Fro yn dod o hyd i ddatrysiad. Cafwyd datrysiad, a chytunwyd y byddai Meddygon Teulu yn mynychu, a lle na fyddent yn gallu mynychu byddai cynrychiolydd wedi'i friffio'n llawn yn cael ei anfon ar eu rhan.

Ail-archwiliad amlasiantaethol o blant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ac fe'i cyflwynwyd gan Dr Alison Mott (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tîm Diogelu Cenedlaethol). Ardystiwyd yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd a chânt eu hintegreiddio i mewn i raglen waith bresennol y Bwrdd: -

- Mae angen i'r BDPRh ailbwysleisio'r gofyniad i ddilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan mewn perthynas â phlant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, yn arbennig o ran cyfarfodydd strategaeth
- Mae angen i arfer da gan Awdurdodau Lleol gael ei rannu gan ystyried llwybr cyffredin ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg
- Nodwyd mewn trafodaethau ar yr archwiliad hwn fod angen hyfforddiant pellach ar weithwyr proffesiynol ar reoli ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae angen addysgu ac atgyfnerthu pob gweithiwr proffesiynol sy'n rhan o'r gwaith hwn; mae yna lwybrau a gweithdrefnau clir ar gyfer plant-droseddwr honedig a dylid bodloni eu hanghenion yn yr un ffordd yn union â rhai'r dioddefwyr.
- Byddai'n addysgiadol gwerthuso'r effaith y mae MASH wedi'i gael ar y broses gyda mwy o gyfle am gyfathrebu amlasiantaethol
- Mae angen diweddarau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) o ran ymddygiad rhywiol niweidiol, a'r broses ar gyfer asesu a rheoli'r bobl ifanc hyn.

Cytunwyd y byddai diweddariadau rheolaidd gan Barnardo's yn cael eu rhoi i'r Bwrdd ar waith sydd wedi'i gwblhau ar hyn.

Dan y flaenoriaeth hon, aeth y BDPRh ati i gytuno ar raglen o weithgareddau â blaenoriaeth i alluogi'r Bwrdd i ddatblygu dull cyffredinol parhaus yn ystod oes y cynllun. Arweiniodd hyn at sicrhau bod yr Is-grŵp Archwilio Plant yn cael ei ailsefydlu a datblygu Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019 yn ystyried y rhaglen dreigl a nodwyd yn y DGCLI ac argymhellion gan Adolygu Arfer Plant/MARF.

2. Plant ar gyrion y System Amddiffyn Plant

Roedd y Bwrdd yn teimlo bod angen delio â'r flaenoriaeth hon â mwy o ffocws o fewn y cynllun blynyddol nesaf. Fodd bynnag, er hyn, mae llawer o waith wedi parhau drwy gydol y flwyddyn ar agenda'r Bwrdd, gan fynd i'r afael ag anghenion a materion sy'n codi mewn perthynas â'r flaenoriaeth hon.

Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Lansiodd Heddlu De Cymru ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth ym mis Mawrth 2018 gan wahodd amrywiaeth o asiantaethau gwahanol. Daeth llawer i'r digwyddiad, a oedd yn llawn gwybodaeth, gyda chyflwyniadau gan Heddlu De Cymru, BIP Caerdydd a'r Fro, BAWSO, Arweinydd Strategol Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Rhanbarth y De-orllewin, Cyd-wasanaethau Cyfreithiol Heddlu De Cymru a'r Ganolfan Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Genedlaethol. Mae Is-Grŵp Polisïau, Gweithdrefnau a Phrotocolau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro wedi cytuno i dderbyn gwybodaeth gan grwpiau Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod eraill ac adolygu'r Canllaw Rhanbarthol gyda'r nod o ddiweddarau hwn wrth gysylltu â'r Tîm Project Gweithdrefnau Cymru Gyfan i alinio ag unrhyw bolisïau cenedlaethol.

Canllaw Cymunedol Digwyddiadau Amddiffyn a Diogelwch Cyhoeddus y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Cyflwynwyd y ddogfen hon i'r Bwrdd gan Reolwr y Gwasanaethau Troseddau Ieuencid ym Mro Morgannwg. Mae'r canllaw yn bennaf ar gyfer rheolwyr/staff y Tîm Troseddau

leuenctid (TTI) (neu gydweithwyr cyfatebol sy'n gyfrifol am ddarparu a/neu fonitro gwasanaethau cyfiawnder leuenctid yn y gymuned) a phersonél y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid (BCI). Diben y canllaw yw nodi beth y mae disgwyl i staff ei wneud i roi gwybod i'r BCI os yw plentyn yn rhan o ddiogwyddiad amddiffyn neu ddiogelwch cyhoeddus tra ei fod dan oruchwyliaeth TTI neu ar lwyth achos TTI, neu os caiff ei gyhuddo o droseddau difrifol penodol heb fod dan oruchwyliaeth TTI neu ar lwyth achos TTI. Cyflwynwyd y canllaw i'r Bwrdd er mwyn codi ymwybyddiaeth a chadarnhau arferion a sefydlwyd yn flaenorol h.y. bod pob adroddiad o'r fath yn cael ei ystyried gan y bwrdd. Cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried gan yr Is-Grŵp Adolygu Arferion Plant ac Oedolion ac y byddai materion allweddol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd llawn yn ôl yr angen.

Llety Plant Digartref 16 a 17 oed

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Bwrdd gan Reolwr y Gwasanaethau Troseddau leuenctid ym Mro Morgannwg i roi safbwynt Cyngor Bro Morgannwg i'r Bwrdd Diogelu Plant o ran defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer plant digartref 16 a 17 oed. Roedd yr adroddiad yn peintio darlun cadarnhaol a rhoddodd gipolwg da i'r Bwrdd o berfformiad mewn perthynas â'r mater hwn ledled y rhanbarth. Ardystiwyd yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd a chânt eu hintegreiddio i mewn i waith presennol y Bwrdd ar ddatblygu set ddata gydlynol: -

- Mae'r BDPRh yn nodi ac yn ardystio ymateb Cyngor Bro Morgannwg i Archwiliad Thematig HMIP.
- Mae'r BDPRh yn gofyn i Gyngor Caerdydd a Bro Morgannwg ddarparu data perfformiad a data ansoddol yn flynyddol ar y defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer plant 16 a 17 oed fel y gall graffu'n briodol.

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y dull gweithredu mewn perthynas â hyn yn gadarn a bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r holl gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae dogfennau ar gael i staff y ddau Awdurdod Lleol, a chyflwynwyd crynodeb o'r cynnydd hyd yma a rhestr o bolisïau a ddefnyddiwyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018. Cyflwynwyd adroddiad gan Fro Morgannwg i lywio ystyriaeth barhaus y BDPRh o'r goblygiadau diogelu sy'n ymwneud ag Addysg Ddewisol yn y Cartref a phlant yn colli addysg. Ardystiwyd yr argymhellion canlynol gan y Bwrdd a chânt eu hintegreiddio i mewn i waith presennol y Bwrdd: -

- Adrannau addysg ALI i fonitro data presenoldeb ysgolion a hyrwyddo presenoldeb llawn amser i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol drwy nodi plant â phresenoldeb gwael
- Adrannau addysg ALI i herio unrhyw weithgarwch sy'n lleihau'r posibilrwydd o bresenoldeb llawn amser i blant o oedran ysgol gorfodol, megis allgáu amhriodol neu anghyfreithlon, defnydd amhriodol o amserlenni wedi'u cwtogi neu annog rhieni i dynnu eu plentyn allan o'r ysgol am unrhyw reswm
- Adrannau addysg ALI i geisio modelau ymyrraeth gynnar a datrys gwrthdaro i atal plant rhag cael eu tynnu allan o'r ysgol gan ffafrio Addysg Ddewisol yn y Cartref neu gollu addysg o ganlyniad i ddirywiad mewn perthnasau rhwng rhieni a'r ysgol neu ALI
- BDPRh i ddatblygu protocol amlasiantaethol i gynnig dull gweithredu rhanbarthol cyson ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol a phrosesau eraill i ddiogelu plant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref neu sy'n colli addysg

- BDPRh i hyrwyddo hyfforddiant amlasiantaethol effeithiol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mynychu'r ysgol a'r risgiau i blant o golli addysg, gan gynnwys rhai plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref
- BDPRh i ystyried cynnig hyfforddiant amlasiantaethol a chanllaw ymarfer sy'n cefnogi ymarferwyr i weithio'n effeithiol gyda theuluoedd cymhleth, heriol a gwrthwynebol

O ganlyniad i'r adroddiad hwn sefydlodd yr Is-Grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu polisi amlasiantaethol a gaiff ei ddatblygu yn ystod 2018-2019. Mae'r Is-Grŵp hwn hefyd wedi dechrau adolygu a diweddarau'r "Protocol ar gyfer Gweithio gyda Theuluoedd nad ydynt yn Cydweithredu â Materion Diogelu".

Ffoaduriaid/Plant Mudol

Cafwyd cais gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol am ddiweddariad ar yr arferion presennol yn y rhanbarth mewn perthynas â chefnogi teuluoedd sydd â statws ffoaduriaid. Roedd y cais yn amlinellu pryderon yn ymwneud ag enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bygwth rhoi plant mewn gofal yn hytrach nag ailgartrefu'r teulu cyfan. Ymatebodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i hyn gan gadarnhau bod Gwasanaethau Plant Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg yn falch o'u record o gefnogi ffoaduriaid a phlant mudol i barhau i fyw gyda'u teuluoedd lle bo hynny'n ddiogel. Mae'r ddau awdurdod lleol yn rhoi cymorth ariannol i'r teuluoedd hynny nad oes ganddynt fynediad i arian cyhoeddus i sicrhau nad yw'r plant yn cael eu gadael yn anghenus ac y gallant barhau i fyw gyda'u teuluoedd yn ddiogel.

Is-Grŵp Ecsbloetiaeth

Gwnaeth gweithwyr proffesiynol o Heddlu De Cymru gyflwyniad i'r BDPRh a'r BDORh yn amlinellu'r materion sy'n dod i'r amlwg o ran Ffiniau Sir. Yn dilyn y cyflwyniad hwn, cytunwyd y byddai Heddlu De Cymru yn cyflwyno briff ar sail gwybodaeth o lefelau achosion yn y dyfodol. Gofynnwyd i asiantaethau hefyd ddarparu unrhyw ddiweddariadau neu wybodaeth mewn perthynas â Ffiniau Sir. Cytunodd holl aelodau'r BDPRh a'r BDORh i ledaenu gwybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu De Cymru yn eang o fewn eu hasiantaethau. At hynny, yn dilyn y cyflwyniad hwn i'r Bwrdd a chais gan y tîm 'Diogelu Dy Hun!' yng Nghaerdydd, cytunodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i sefydlu Is-Grŵp Thematig i ddisodli'r Is-Grŵp Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant er mwyn monitro gwaith ar amrywiaeth o fathau o ecsbloetiaeth ar draws y rhanbarth wrth ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.

Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed

Bu'r BDPRh yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r 'Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed' yn dilyn cyflwyniad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2017. Mae aelodau o'r Bwrdd hefyd yn mynychu Grŵp Llywio Hunanladdiad a Hunan-niwed ac yn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

Yr Agenda Atal

Mae cysylltiadau wedi'u gwneud gyda Thîm Atal y Swyddfa Gartref a rhoddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i sicrhau bod y gwaith o fewn y tîm Atal yn cael ei ystyried o fewn eu hasiantaethau gyda phwyslais penodol ar fynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddi. Yn y dyfodol, bydd y Bwrdd yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud â gwaith y tîm Atal drwy eu gwefan, a dylai unrhyw faterion brys mewn perthynas ag Atal gael eu cyflwyno'n ôl i'r Bwrdd er ystyriaeth.

Stori'r Defnyddiwr Gwasanaeth

Yn ystod 2017-2018, gwelwyd bod cynnwys ac ystyried profiad y plentyn o fewn asiantaethau partner yn thema sy'n dod i'r amlwg mewn Adolygiadau Arfer Plant ac yn elfen waith y cytunodd aelodau'r BDPRh ei bod yn bwysig cadw golwg arni. Cytunodd aelodau'r Bwrdd, ochr yn ochr â gwaith arall sy'n mynd rhagddo o fewn yr asiantaethau unigol a'r Is-Grwpiau (Gweithdai Dysgu, Cynllun Gwaith yr Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac ati), i fynd i'r afael â hyn a'i gynnwys fel blaenoriaeth yn y Cynllun Blyneddol. Byddai'n gyfle allweddol i bob aelod-asiantaeth ddarparu stori defnyddiwr gwasanaeth i'r Bwrdd. Byddai hyn yn rhoi cipolwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud a phrofiad y plentyn. Bydd ein stori gyntaf yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019. Bydd y gwaith hwn yn parhau'n eitem agenda sefydlog yn y dyfodol.

Dogfen Cytundeb Gweithio ar y Cyd Plant yng Nghystodaeth yr Heddlu

Cyflwynwyd y ddogfen hon i BDPRh Caerdydd a'r Fro ac er na chafodd ei hardystio gan bob asiantaeth, cytunwyd y byddai'r gwaith yn symud ymlaen, gyda Heddlu De Cymru a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio'n agos i ddatrys unrhyw faterion. Cytunwyd y dylai'r Bwrdd Diogelu Plant gadw golwg ar y data a gynhyrchir gan Heddlu De Cymru mewn perthynas â Phlant yng Nghystodaeth yr Heddlu a chanlyniad hyn oll. Mae Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu'n gweithio'n agos â Heddlu De Cymru i sicrhau bod system gadarn ar waith i adrodd y data hwn i'r Bwrdd yn brydlon. Mae'r data hwn yn debygol o gael ei sefydlu yn y fframwaith set ddata sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

3. Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth

Cytunwyd y byddai angen cymryd nifer o gamau gweithredu allweddol i sicrhau ffordd gadarn ymlaen er mwyn i'r BDPRh fod yn effeithiol yn y maes hwn. Ail-lansiodd y BDPRh yr Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gydweithio ar gyflawni gwaith Diogelu Oedolion a Phlant. Mae'r Is-Grŵp hwn wedi datblygu Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019 gan ystyried llais a chyfraniad pobl ifanc a sicrhau bod adborth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Roedd yn bwysig i'r Bwrdd sicrhau bod yr holl ddogfennau/deunyddiau cyhoeddus yn cael eu diweddarau a'u bod yn hygyrch. Penderfynwyd mai eleni fyddai'r flwyddyn i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae gwefan y BDPRh wedi'i ddiweddarau a nifer o adnoddau wedi'u creu i sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn cael ei hyrwyddo'n eang.

Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd cylchlythyr ar y cyd ar ran y Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant a chaiff ei lunio gan yr Uned Busnes Diogelu bob chwarter. Nod y bwletinau fydd tynnu sylw at ganllawiau ac ymchwil newydd ac adrodd ar ddatblygiadau yn y maes diogelu ar draws y Byrddau Plant ac Oedolion. Mae'r holl sefydliadau sy'n aelod o'r Byrddau'n cyfrannu at y bwletin i hyrwyddo a hysbysu unigolion sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl, yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am waith y Bwrdd.

Wythnos Diogelu Genedlaethol

Gall y BDPRh ddathlu Wythnos Diogelu Genedlaethol lwyddiannus iawn yn 2017-2018 gyda nifer o ddigwyddiadau gwahanol yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd. Mae rhaglen yr wythnos i'w gweld fel Atodiad #. Prif ffocws yr wythnos oedd cyflwyno digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar amrywiaeth o themâu diogelu yn ymwneud ag Ymgysylltu Cymunedol, Caethwasiaeth Fodern, Iechyd Meddwl a Gwydnwch, Cam-drin Ar-lein ac Ecsbloetiaeth a Cham-drin Domestig. Bwriad yr wythnos hon hefyd oedd atgyfnerthu'r neges fod diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn gyfrifoldeb i bawb. Yn ystod yr wythnos, helpodd y Bwrdd Diogelu Plant

Rhanbarthol i hyrwyddo lansiad cyhoeddiad CASCADE o'r Adroddiad Adolygu CRhB a arweiniwyd gan Dr Sophie Hallett. Mae'r trefniadau cynllunio ar gyfer Wythnos Diogelu Genedlaethol 2018 eisoes wedi dechrau gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu gan yr Uned Busnes Diogelu a'r Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod a chytuno ar gynllun gwaith ar gyfer 2018.

Gwasanaeth Eirioli Heddlu De Cymru

Cyflwynodd Heddlu De Cymru Achos Busnes i'r Bwrdd yn amlinellu'r opsiynau sydd ar gael i Heddlu De Cymru ar gyfer Gwasanaeth Eiriolaeth Plant Annibynnol. Amlinellodd yr Achos Busnes y trefniadau ariannu blaenorol. Daeth yr Achos Busnes gyda llythyr yn gwahodd cymorth ariannol gan y Bwrdd i barhau â'r gwasanaeth hwn. Cytunodd y Bwrdd i gefnogi parhad y Gwasanaethau Eiriolaeth Plant ond roedd o'r farn y dylai'r cais am gyllid fod yn fater i'w ystyried gan y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

4. Gweithrediadau'r Bwrdd

Mae'r BDPRh yn falch o'r cyflawniad o ran gweithrediadau'r Bwrdd a'r datblygiadau sydd wedi'u gwneud hyd yma.

Mae penodi Rheolwr Busnes Strategol a sefydlu Uned Busnes Diogelu wedi cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar weithrediad y Bwrdd a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar ran y Bwrdd. O ganlyniad i hyn, bu gwelliant sylweddol yn y trefniadau cydweithio gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Chenedlaethol eraill yng Nghymru, gan sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu'n barhaus.

Mae cyfarfodydd y Byrddau oedolion a phlant nawr yn cael eu cyd-gadeirio gan gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd a'r Fro. Cynhelir y cyfarfodydd hynny ar yr un diwrnod gyda rhywfaint o orgyffwrdd, sy'n galluogi cyd-faterion i gael eu hystyried gan y ddau fwrdd. Mae agendâu'r cyfarfodydd Bwrdd yn gryno a pherthnasol ac yn canolbwyntio ar ddatblygu strategol. Mae'r aelodaeth yn fwy sicr o ran strwythur, llywodraethu a ffocws strategol, ac mae'r Bwrdd mewn sefyllfa well o lawer i gwrdd â'r heriau y mae ardal mor boblog ac amrywiol â Chaerdydd yn eu gosod yn fwy ac yn fwy.

Mae is-grwpiau nawr yn gweithredu mewn modd mwy pwrpasol. Mae dogfennau Cylch Gorchwyl a chynlluniau gwaith wedi'u datblygu ar gyfer is-grwpiau ynghyd â phroffiliau rôl penodol ar gyfer yr is-grŵp adolygu arfer plant ac oedolion. Mae'r rhain wedi cyfrannu at sicrhau bod gan aelodau'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni gwaith ar gyfer y grwpiau hyn.

Bydd gwaith yn parhau drwy gydol y flwyddyn i ddatblygu Cylch Gorchwyl ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac i ddyfeisio rhaglen sefydlu safonol (i gynnwys system gyfeillio newydd).

Mae'r Bwrdd bellach yn ystyried y gwaith hwn yn fusnes craidd, ac ni fydd yn aros ar y Cynllun Blynyddol.

iii. GWEITHGARWCH ARALL A DATBLYGU'R BWRDD

Cyfarfodydd

Yn ystod 2017-2018 cynhaliwyd pedwar cyfarfod Prif Fwrdd BDPRh gyda Diwrnod Datblygu ychwanegol yn cael ei gynnal i drafod blaenoriaethau allweddol i gynnal hunanasesiad. Gwnaeth y Grŵp Cynllunio Busnes gyfarfod deirgwaith. Roedd llawer o bartneriaid statudol yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Presenoldeb Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Asiantaeth	Presenno l	Absenno l	Cynrychiolwy r
Gwasanaethau Plant Caerdydd	4	0	0
Gwasanaethau Plant Bro Morgannwg	3	1	0
Heddlu De Cymru	4	0	2
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	3	1	0
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	2	2	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	4	0	0
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	1	3	0
Addysg Caerdydd	4	0	1
Addysg Bro Morgannwg	4	0	1
Tai Caerdydd	3	1	0
Tai Bro Morgannwg	2	2	2
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Caerdydd	2	2	0
Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg	2	2	0
Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)	4	0	0
Tîm Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG	3	1	1
Barnardo's	2	2	0
NSPCC	0	4	0
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS)	3	1	0
Fisâu a Mewnfudo y DU	2	2	0
Cymorth i Fenywod Caerdydd	0	4	0
Cynrychiolydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol	3	1	0

Diwrnod Datblygu

Ar 12 Ionawr 2018, cymerodd aelodau'r BDPRh ran mewn Diwrnod Datblygu a hwyluswyd gan yr Athro Jan Horwath, Athro Emeritws Lles Plant yn yr Adran Astudiaethau Cymdeithasegol ym Mhrifysgol Sheffield, gyda'r nod o:

- Edrych ar gyflawniadau a heriau'r Bwrdd yn 2017
- Nodi blaenoriaethau ar gyfer 2018
- Pennu sut gall y Bwrdd arddangos dealltwriaeth o arfer diogelu yn y rhanbarth.

Bu llawer o drafodaeth yn ystod y dydd ynglŷn â blaenoriaethau a ffocws y gweithgarwch ar gyfer y cylch cynllunio busnes nesaf. Helpodd y trafodaethau hyn i lywio'r Cynllun Blynnyddol ar gyfer 2018-2019.

Darparodd y Diwrnod Datblygu gyfle da i aelodau'r Bwrdd adeiladu perthnasau gwaith effeithiol, rhannu arfer da a phenderfynu beth ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd.

Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus ac mae eisoes yn gwneud gweithgarwch y Bwrdd yn fwy effeithiol.

Adran 137 – Cais am Wybodaeth

Dan Adran 137 y DGCLI, gall Bwrdd Diogelu, at y diben o alluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau, ofyn i berson neu gorff cymwys gyflwyno gwybodaeth benodol y mae isadran (2) neu (3) yn berthnasol iddi i -

- (a) y Bwrdd, neu
- (b) person neu gorff a nodir gan y Bwrdd.

Eleni ni fu'n rhaid i BDPRh Caerdydd a'r Fro ddefnyddio unrhyw geisiadau Adran 137.

Diogelu Plant yn y Rhanbarth – Data Perfformiad

Dylai'r set ddata ganlynol gael ei hystyried yn un sy'n cynnig cipolwg cyfyngedig iawn ar faes cymharol gul o arferion a gweithgarwch amddiffyn plant. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen brys am set ddata amlasiantaethol glir a chydlynol sy'n galluogi dadansoddi a chwestiynu mwy pwrpasol sy'n galluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w hun ac i'r cyhoedd fod arfer diogelu'n meddu ar ffocws ac adnoddau priodol a'i fod yn effeithiol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r set ddata hon wrthi'n mynd rhagddo fel blaenoriaeth allweddol (gweler tudalen 12).

Nifer y cofrestrïadau (ym mis Mawrth 2018), wedi'u categoreiddio:

Categori Cam-drin	Caerdydd	Bro Morgannwg
Cam-drin emosiynol	83	37
Esgeuluso	132	58
Esgeulustod a cham-drin emosiynol	0	
Cam-drin corfforol	8	6
Cam-drin corfforol ac Esgeulustod	0	6
Cam-drin Corfforol ac Emosiynol	0	
Cam-drin rhywiol	8	2
Cam-drin Rhywiol a Chorfforol	3	0
Cam-drin ac Esgeulustod Rhywiol	0	3
Ariannol a Chorfforol		1
Cofrestru ar yr Enedigaeth		6
Cyfanswm	234	124

Nifer y cyhuddiadau proffesiynol (o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018):

	Caerdydd	Bro Morgannwg
Nifer y cyhuddiadau a wnaed	90	28
Nifer a gwblhawyd	60	
Nifer y cyfarfodydd strategol cychwynnol	72	

DIOGELU OEDOLION:

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen ar ddatblygu bwrdd Oedolion cadarn a chydlynol ar gyfer y rhanbarth tra'n mynd i'r afael â'r ddwy brif flaenoriaeth yn y Cynllun Blynyddol, ynghyd â Busnes Craidd y Bwrdd.

i. BLAENORIAETHAU A NODIR

Fel y rhestrir yng Nghynllun Blynyddol 2017-2018 y BDPRh nododd y Bwrdd y blaenoriaethau canlynol:

- 1. Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio**
- 2. Diogelu Pobl â Demensia**

iv. MYND I'R AFAEL Â'R BLAENORIAETHAU

- 1. Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio**

Fforymau Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio

Yn y Cynllun Blynyddol, cydnabu'r BDORh yr angen i ymgysylltu â'r sector drwy Fforymau Gofal Cartref a Chartrefi Preswyl/Nyrsio. Yn 2017-2018 ymgasglodd y Fforymau ym Mro Morgannwg a Chaerdydd a thrafodwyd y posibilrwydd o ddod â'r ddau Fforwm ALI ynghyd – ar y funud, y teimlad yw bod y modelau comisiynu'n rhy wahanol, felly ni fyddwn yn dod â nhw ynghyd ar yr adeg hon.

Ymgysylltu â Defnyddwyr y Gwasanaeth Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio

Mae yna ddarn o waith yn mynd rhagddo i gyflwyno'r project 'Eich Dewis Chi' ar gyfer gofal cartref sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn dilyn peilot 12 mis llwyddiannus ym Mro Morgannwg. Mae yna hefyd broject ym Mro Morgannwg yn ymwneud â gwasanaeth dydd Anabledd Corfforol – 'Gorwelion Newydd'; mae'r project hwn yn edrych ar sut y gallwn ymgysylltu'n well â dinasyddion er mwyn siapio eu gofal cartref. Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys mewn cyfweiliadau gofalwyr ac yn datblygu eu safonau eu hunain ar gyfer eu disgwyliadau o ofalwyr wrth ddarparu gofal yng nghartrefi pobl. Mae llawer o'r gwaith yma eleni wedi'i gysgodi gan ddatblygiad cyllidebau cronol ar gyfer cartrefi gofal a gynhelir gan Gaerdydd ar gyfer 2018/19, ac mae cyfathrebu gwell ar draws yr holl asiantaethau partner ynglŷn â gosod ffioedd wedi sicrhau bod perthnasau cryf yn cael eu hadeiladu gyda darparwyr annibynnol. Disodlwyd y gwaith o ddatblygu cyd-gytundeb gan gyflwyniad Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol 2016.

Protocol Perfformiad Darparwyr Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio BDORh

Yn 2017-2018, cwblhawyd gwaith ar alinio dau brotocol yr awdurdodau lleol a mabwysiadu un protocol Perfformiad Darparwyr ar gyfer y BDORh cyfan gan felly sicrhau dull cyson a chadarn ar draws ardal y bwrdd. Mae'r derminoleg ar draws y rhanbarth yn gyson ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n gyson am bryderon am ddarparwyr lle bo angen.

Comisiynu, Contractio a Chyd-hyfforddiant Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio

Mae cynrychiolwyr o bob un o dimau comisiynu a chontractio Caerdydd a'r Fro yn mynychu eu cyfarfodydd rheoli a monitro ansawdd perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth

yn cael ei chyfnewid yn effeithiol a bod pryderon diogelu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi. Mae'r BDORh wedi ystyried ymarferoldeb cyfuno'r rhain i mewn i un swyddogaeth Sicrwydd Ansawdd ar gyfer y Bwrdd cyfan ond mae natur y cyfarfodydd yn ehangach o lawer na diogelu ac yn adlewyrchu modelau busnes gwahanol nad ydynt yn addas i'w huno'n syml ar hyn o bryd. Gwnaeth y BDORh hefyd gydnabod yr angen am gydhyfforddiant cadarn i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rhan o ymchwiliadau yn gallu casglu a chofnodi tystiolaeth i safonau PACE, p'un ai a oes ymchwiliad troseddol yn cael ei gynnal o ganlyniad ai peidio. Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno cydhyfforddiant i Reolwyr Arweiniol Dynodedig ALI a Reolwyr Arweiniol Dynodedig Iechyd. Cydnabuwyd y dylai hyn gael ei annog a'i ddatblygu ymhellach.

Mynd i'r Afael â Heriau Gofal Cartref a Chartrefi Nyrsio

Roedd y Bwrdd am sicrhau bod yr heriau y mae'r sector Gofal Cartref yn eu hwynebu yn cael eu nodi ac, i gyflawni hyn, cyhoeddodd weithred i nodi'r capasiti presennol yn y farchnad, a chwblhawyd hyn yn 2017-2018. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod prosesau Diogelu Oedolion interim ledled Caerdydd a'r Fro yn gyson ac yn addas at y diben yn amodol ar adolygiad cenedlaethol y cytunir arno o Weithdrefnau Cymru Gyfan, mae ffurflen A1 newydd wrthi'n cael ei hadolygu. Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi gweithio gyda ALI Caerdydd a Bro Morgannwg i ddatblygu'r VA1 bresennol sy'n cael ei defnyddio. Bydd cydweithio pellach yn parhau i sicrhau partneriaeth ag asiantaethau statudol i ddiweddarau'r ffurflen atgyfeirio/dyletswydd adrodd hon.

Adrodd ar Wiserau Pwysau

Trefnwyd gwaith ar sicrhau gweithrediad llawn a chyson 'Canllaw Cymru Gyfan ar adrodd ac ymchwilio i Wiserau Pwysau 2014' ac mae Caerdydd a'r Fro yn ymdrechu i sicrhau proses gadarn ar gyfer adrodd i'r ALI priodol ledled rhanbarth BIP Caerdydd a'r Fro. Mae pob Bwrdd Iechyd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am Niwed Pwysau Gradd 3 a 4 ac yn cwblhau ffurflen DATIX, ac mae ymchwiliad Dadansoddiad Achos Gwreiddiol yn cael ei gynnal. Fel pob Bwrdd Iechyd ledled Cymru, mae BIP Caerdydd a'r Fro yn ystyried sut y gellir gwella'r broses o atgyfeirio o fewn y BIP ac o rannu gwybodaeth gyda'r ALI.

Cyflwynwyd cynnig gan BIP Caerdydd a'r Fro i'r Bwrdd yn amlinellu'r argymhellion canlynol:

- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i ystyried yr adolygiad arfaethedig o adrodd ar niwed Wiserau Pwysau i'r ALI
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro i gael sicrwydd, os cytunir arno, y bydd y mecanwaith adrodd a gynigir yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ddyletswydd adrodd
- Os cytunir ar hyn, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn paratoi cynllun gweithredu ar draws y BIP

Cytunwyd gan y Bwrdd fod llawer mwy i'w ystyried cyn dod i benderfyniad terfynol, felly penderfynwyd y byddai'r Is-Grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau yn ymchwilio i hyn ymhellach ac yn adrodd i'r bwrdd llawn.

2. Diogelu Pobl â Demensia

Ystyriodd y BDORh briodoldeb hyn fel blaenoriaeth a'r camau gweithredu cysylltiedig, a theimlir nad yw hyn yn fusnes uniongyrchol i'r BDORh (er ei fod yn faes allweddol o ddiddordeb). Byddem yn disgwyl i hyn gael ei drin a'i fonitro drwy strategaeth ddemensia 3 blynedd ac i fframwaith llywodraethu cysylltiedig fonitro'r cynnydd.

Cytunwyd y gellid mynd i'r afael â meysydd diogelu pobl â demensia dan y flaenoriaeth 'Gweithlu' yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019.

Dinas sy'n Deall Demensia

Gwnaeth Josef Prygodzicz, Uwch Arbenigwr Hybu Iechyd, gyflwyniad ar y Statws Deall Demensia. Cyflwynwyd y cefndir i 'Dinas sy'n Deall Demensia', sy'n rhaglen genedlaethol dan oruchwyliaeth y Gymdeithas Alzheimer. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithio gyda phobl leol a phartneriaid i greu trefi a dinasoedd sy'n deall demensia. Nod cyffredinol y rhaglen yw creu amgylchedd sy'n fwy cefnogol o bobl yr effeithir arnynt gan ddemensia. Mae'r rhaglen hon wedi'i datblygu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae Gorllewin Caerdydd a'r Barri wedi'u dewis fel dwy ardal beilot fel rhan o'r Cynllun Demensia 3 blynedd, ac esboniwyd canlyniadau allweddol y cynlluniau peilot. Nodwyd bod Caerdydd yn gweithio tuag at fod y Ddinas sy'n Deall Demensia gyntaf yn y DU. Ym Mro Morgannwg mae yna grŵp llywio cyffredinol. Bydd lansiad ym mis Mai 2018 yn ystod yr Wythnos Alzheimer Genedlaethol, ac mae pob ymdrech yn cael ei gwneud i annog sefydliadau i gyfrannu tuag at y cynllun a chodi ymwybyddiaeth. Cytunodd y Bwrdd y dylai aelodau ledaenu'r wybodaeth hon o fewn eu hasiantaethau a rhannwyd manylion cyswllt Josef er mwyn i'r cyflwyniad gael ei wneud o fewn sefydliadau unigol.

ii. GWEITHGARWCH ARALL A DATBLYGU'R BWRDD

Cyfarfodydd

Yn ystod 2017-2018, cyfarfu'r BDORh 4 gwaith, gan gynnwys cyfarfodydd y Prif Fwrdd a Diwrnod Datblygu, i drafod blaenoriaethau allweddol a chynnal hunan-asesiad. Gwnaeth y Grŵp Cynllunio Busnes gyfarfod deirgwaith. Roedd llawer o bartneriaid statudol yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Presenoldeb Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Asiantaeth	Presenno l	Absenno l	Cynrychiolwy r
Gwasanaethau Oedolion Caerdydd	2	1	0
Gwasanaethau Oedolion Bro Morgannwg	3	0	0
Heddlu De Cymru	3	0	0
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	2	1	0
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	1	2	1
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2	1	0
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	0	3	0
Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)	2	1	0
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru	0	3	0
MIRUS	1	2	0
Cartrefi Gofal	3	0	0
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	0	3	0
Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg	0	3	0
Age Connect	1	2	0
NISB	1	2	0

Diwrnod Datblygu

Ar 9 Chwefror 2018, cymerodd aelodau'r BDPRh ran mewn Diwrnod Datblygu a hwyluswyd gan yr Athro Jan Horwath, Athro Emeritws Lles Plant yn yr Adran Astudiaethau Cymdeithasegol ym Mhrifysgol Sheffield, gyda'r nod o:

- Ystyried y cynnydd a wnaed gan BDO Caerdydd a'r Fro
- Ystyried unrhyw faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg
- Egluro blaenoriaethau ar gyfer 2018-2020.
- Pennu sut gall y Bwrdd arddangos ei gyfraniad at welliannau diogelu.

Bu llawer o drafodaeth yn ystod y dydd ynglŷn â blaenoriaethau a ffocws y gweithgarwch ar gyfer y cylch cynllunio busnes nesaf. Helpodd y trafodaethau hyn i lywio'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-2019.

Darparodd y Diwrnod Datblygu gyfle da i aelodau'r Bwrdd adeiladu perthnasau gwaith effeithiol, rhannu arfer da a phenderfynu beth ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus ac mae eisoes yn gwneud gweithgarwch y Bwrdd yn fwy effeithiol.

Adran 137 – Cais am Wybodaeth

Dan Adran 137 y DGCLI, gall Bwrdd Diogelu, at y diben o alluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau, ofyn i berson neu gorff cymwys gyflwyno gwybodaeth benodol y mae isadran (2) neu (3) yn berthnasol iddi i -

- (a) y Bwrdd, neu
- (b) person neu gorff a nodir gan y Bwrdd.

Eleni ni fu'n rhaid i BDPRh Caerdydd a'r Fro ddefnyddio unrhyw geisiadau Adran 137.

Gorchymynion Diogelu a Chefnogi Oedolion (GSChO)

Dan Adran 127 yn y DGCLI, "gall swyddog awdurdodedig wneud cais i Ynad Heddwch am orchymyn ("gorchymyn diogelu a chefnogi oedolyn") mewn perthynas â pherson sy'n byw mewn unrhyw safle mewn ardal awdurdod lleol." Diben gorchymyn diogelu a chefnogi oedolyn yw -

(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn mewn perygl

(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i bennu a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau'n rhydd, a

(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn mewn perygl a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol dan Adran 126(2) ar y camau y dylid eu cymryd, os o gwbl.

Yn ystod 2017-2018, ni fu angen i BDORh Caerdydd a'r Fro ddefnyddio'r pwerau dan yr adran hon.

Diogelu Oedolion yn y Rhanbarth – Data Perfformiad

Dylai'r set ddata ganlynol gael ei hystyried yn un sy'n cynnig cipolwg cyfyngedig iawn ar faes cymharol gul o arferion a gweithgarwch amddiffyn oedolion. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen brys am set ddata amlasiantaethol glir a chydlynol sy'n galluogi dadansoddi a chwestiynu mwy pwrpasol sy'n galluogi'r Bwrdd i roi sicrwydd i'w hun ac i'r cyhoedd fod arfer diogelu'n meddu ar ffocws ac adnoddau priodol a'i fod yn effeithiol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r set ddata hon wrthi'n mynd rhagddo fel blaenoriaeth allweddol (**gweler tudalen 12**).

Nifer yr atgyfeiriadau a gategoreiddiwyd:

Categori Cam-drin	Caerdydd	Bro Morgannwg
Emosiynol	298	43
Ariannol	251	54
Esgeuluso	677	119
Corfforol	473	120
Rhywiol	85	33
(gwag)	0	1
Cyfanswm	1784	370

Canlyniadau atgyfeiriadau:

Canlyniad atgyfeiriad	Caerdydd	Bro Morgannwg
Cau	696	283
Ymchwilio	90	68
Ymholiadau pellach	185	39
Cyswllt â hyb	301	

GWAITH CYDWEITHREDU:

i. AGENDA DIOGELU OEDOLION A PHLANT

Ynghyd ag agendâu unigol ar gyfer diogelu oedolion a phlant, mae Byrddau Diogelu Caerdydd a'r Fro wedi sicrhau bod eu cyfarfodydd yn caniatáu am unrhyw orgyffwrdd rhwng materion ac eitemau agenda. Dyma rai o'r eitemau agenda sydd wedi'u trafod ar y cyd:

Adolygiad o Weithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Cymru Gyfan

Rydym yn falch o arwain yr adolygiad o Weithdrefnau Amddiffyn Oedolion a Phlant Cymru Gyfan ac o allu adrodd ei fod yn datblygu ar gyflymder priodol, gyda chefnogaeth dda gan gydweithwyr proffesiynol ar draws pob asiantaeth a rhanbarth.

Cynnig Rhyngwyneb Gwasanaethau Cymdeithasol-Heddlu De Cymru

Cyflwynwyd cynnig i'r Bwrdd lle byddai'r Byrddau Oedolion a Phlant yn cyd-gomisiynu gweithdy diwrnod llawn ar gyfer Heddlu De Cymru a staff Caerdydd wedi'i hwyluso gan ymgynghorydd allanol. Bydd y gweithdy'n dod â staff rheng flaen allweddol ynghyd o'r ddwy asiantaeth statudol. Cynigiwyd y byddai angen i'r Byrddau:

- Gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i hwyluso'r diwrnod
- Ariannu lleoliad a lluniaeth
- Dod o hyd i staff allweddol ar draws yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'u cefnogi i fynychu. Dylai'r rhain gynnwys y Tîm Dyletswydd Argyfwng, Swyddogion Efydd, Sarsiantiaid PPU ac aelodau'r tîm MASH.

Byddai canlyniadau'r gweithdy hwn fel a ganlyn:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o'r rolau a'r cyfrifoldebau gwahanol
- Cytuno ar unrhyw hyfforddiant a datblygiad pellach a ddylai fod ar gael i hyrwyddo mwy o gydweithio a chydweithio gwell
- Cytuno ar bolisi a gweithdrefnau i staff rheng flaen
- Cyfle i rannu arfer da
- Rheoli disgwyliadau'n well o fewn proffesiynau
- Dylanwadu ar Raglenni Sefydlu'r dyfodol a'u tywys o fewn yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Datblygu themâu i dywys cynlluniau gweithredu'r dyfodol a gweithgareddau'r sefydliadau amrywiol a'r Byrddau

Ystyriodd y Byrddau y cynnig a chytuno ar y cyllid a'r ymrwymiad angenrheidiol ar gyfer y digwyddiad. Mae gwaith wedi dechrau rhwng Heddlu De Cymru a'r Awdurdod Lleol i drefnu gweithdy yn ddiweddarach yn 2018.

Sector Ffydd

Cynhaliwyd lansiad swyddogol o'r polisi Diogelu terfynol ar gyfer Mosgiau a Lleoliadau Astudiaethau Islamaidd eraill yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol mewn partneriaeth â Chyngor Mwslimiaid Cymru. Datblygwyd a chyflwynwyd cynllun hyfforddi i Fosgiau. Mae llwyddiant yr ymgysylltiad hwn bellach yn darparu sail ar gyfer ymgysylltu'r cymunedau â datblygiadau tebyg o ran diogelu oedolion a chroesawyd hyn gan arweinwyr lleol.



THEMÂU ERAILL SY'N DOD I'R AMLWG A GWAITH PARHAUS

Cadernid gweithdrefnau cwyno

Cynhaliwyd trafodaeth ar gadernid gweithdrefnau cwyno presennol y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol a'r angen i alinio'r rhain gyda diogelu oedolion. Mae gwaith wedi'i gomisiynu gan yr Is-Grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau i ddatblygu dogfen gyfunol.

Gwaith yr IPCC (Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu)

Cysylltwyd â Chomisiynwyr o Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn 2017, a gwnaed cyflwyniad i'r ddau Fwrdd. Gwnaed cysylltiadau drwy asiantaethau unigol gan gytuno y byddai unrhyw faterion brys yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Byrddau.

Polisi Interim AGGCC

Gwnaeth aelodau o Arolygiaeth Gofal Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd ac adrodd ar drefniadau diogelu interim mewnol AGC. Cyflwynwyd cefndir y gwaith o ddatblygu'r polisi interim. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i fwydo unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl i AGC am yr adroddiad interim.

Adroddiadau Archwilio

Mae aelodau'r Bwrdd yn mynd i'r afael ag argymhellion gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'u pryderon eu hunain o ran natur agored a'r gallu i fonitro unrhyw faterion sy'n codi gan bob asiantaeth unigol. Felly, mae pob asiantaeth bartner nawr yn rhannu unrhyw adroddiadau archwilio perthnasol yn rheolaidd, gyda chrynodebau'n tynnu sylw'r Byrddau at unrhyw faterion neu eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd, gan sicrhau y gall y rhain cael eu symud ymlaen a'u gweithredu yn ôl yr angen.

Adolygiadau/Timau eraill

- i. Tîm Adolygu Marwolaethau Plant**
- ii. Adolygiadau Dynladdiad Domestig**
- iii. Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl ymysg Plant (PRUDiC)**

Mae'r Bwrdd wedi creu cysylltiadau penodol gyda Thimau Partneriaethau Cymunedol yn y ddau ranbarth, y Crwner, y Tîm Adolygu Marwolaethau Plant a chydweithwyr sy'n gweithio yn y broses PRUDiC i sicrhau bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei rhannu a bod prosesau cadarn yn cael eu datblygu i alluogi'r Bwrdd i gael trosolwg o ddata a gwybodaeth berthnasol.

ii. GWAITH YR IS-GRWP IAU:

Drwy gydol 2017-2018 gwnaed llawer o waith ar weithrediad a chanlyniadau'r is-grwpiau unigol. Mae gan bob is-grŵp gynllun gwaith nawr sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn, gan gysylltu â Chynlluniau Blynyddol y Byrddau ac unrhyw themâu ac argymhellion sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i adolygiadau parhaus.

Grwpiau Cynllunio Busnes

Mae'r Grŵp Cynllunio Busnes yn allweddol i effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Diogelu o ran cyflawni ei amcanion. Bydd y grŵp yn sicrhau bod blaenoriaethau'r Bwrdd a gwaith yr Is-Grwpiau yn cael eu dwyn ymlaen.

Cytunwyd i gynnwys dau Grŵp Cynllunio Busnes o fewn Strwythur y BDRh i sicrhau y gall unrhyw faterion gweithredol gael eu trin yn y grwpiau hyn ac y gall unrhyw benderfyniadau ac amcanion strategol gael eu hanfon ymlaen i'r BDPRh a'r BDORh i

ddod i benderfyniad. Mae'r Byrddau'n cytuno bod angen is-grŵp cynllunio Busnes ar wahân ar y ddau ohonynt oherwydd yr angen am sylw i faterion arfer manwl a dibyniaeth ar arbenigedd gweithredol sy'n perthyn i faterion technegol. Yn 2017-2018 gwnaeth y Grŵp Cynllunio Busnes gyfarfod deirgwaith lle cafodd cynnydd yr Is-Grwpiau ei fonitro ac unrhyw heriau eu datrys yn briodol. Gwnaeth y grwpiau hyn hefyd fonitro a chyfrannu at ddatblygiad Cynlluniau Blynyddol y BDPRh a'r BDORh wrth fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol, gan roi diweddariadau i'r BDPRh a'r BDORh lle bo angen.

Is-Grŵp Hyfforddi

Mae'r grŵp hwn yn gweithio ar ran y Byrddau Diogelu i sicrhau bod hyfforddiant o safon uchel ar gael ar faterion diogelu plant ac oedolion ac yn cael ei roi i asiantaethau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

Yn ystod y cyfnod ac eto fel rhan o'n hadolygiad llywodraethu, cyfunwyd yr is-grŵp hwn fel swyddogaeth a rennir ar draws y ddau fwrdd er mwyn gwella effeithlonrwydd a darpariaeth gydlynol. Yn 2017-2018 gwnaeth yr Is-Grŵp Hyfforddi gwrdd 5 gwaith a chyflawni gwaith helaeth ar sicrhau bod y rhaglen hyfforddi'n cael ei llywodraethu ar draws y rhanbarth.

Yn gynnar yn 2017, dechreuodd yr Is-Grŵp Hyfforddi Ymarfer Mapio Hyfforddiant er mwyn darganfod pa hyfforddiant oedd yn cael ei gynnig gan asiantaethau unigol. Mae'r darn hwn o waith wedi parhau yn 2017-2018 ac mae'n helpu i nodi unrhyw arfer da ond hefyd unrhyw fylchau y bydd angen i'r Is-Grŵp Hyfforddi eu nodi. Yn sgil hyn, mae'r Is-Grŵp Hyfforddi wrthi'n datblygu cofrestr hyfforddi a fydd yn tynnu sylw at yr holl hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan bob asiantaeth ar draws y rhanbarthau ac yn nodi hyfforddiant lefel 1 amlasiantaethol posibl y gellir ei weithredu ar draws pob rhan o ranbarth y Bwrdd a'i asiantaethau partner. Mae'r Is-Grŵp Hyfforddi wedi nodi bod angen ymgysylltu â'r sector academaidd ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i ddatblygu dealltwriaeth o ymchwil diogelu presennol i lywio hyfforddiant yn y dyfodol, gwasanaethau ac anghenion datblygu polisi. Mae'r holl anghenion hyfforddi a nodir drwy adolygiadau Arfer Plant ac Oedolion yn cael eu gweithredu yng ngwaith yr Is-Grŵp ar gyfer y dyfodol.

Is-grŵp Archwilio BDPRh

Nod y grŵp yw gwella canlyniadau i blant ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, drwy fonitro effeithiolrwydd y cydlynu rhwng asiantaethau gwahanol wrth gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu drwy weithredu dull archwilio amlasiantaethol.

Mae'r Byrddau'n cytuno bod angen is-grŵp archwilio ar wahân ar y ddau ohonynt oherwydd yr angen am sylw i faterion arfer manwl a dibyniaeth ar arbenigedd gweithredol sy'n perthyn i faterion technegol.

Yn ystod 2017-2018, gwnaeth Is-Grŵp Archwilio'r BDPRh gwrdd ddwywaith. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 25 Medi 2017 a'r ail ar 7 Rhagfyr 2017. Adolygwyd y Cylch Gorchwyl yn yr ail gyfarfod ac ailystyriwyd ymrwymiad yr asiantaethau i fynychu cyfarfodydd a dyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gwblhau archwiliadau. Caiff hyn ei fonitro gan yr is-grŵp a chaiff absenoldeb rheolaidd ei adrodd i'r Bwrdd. Cytunwyd ar ddechrau pob archwiliad y bydd y cadeirydd yn ysgrifennu at bob asiantaeth i osod disgwyliadau'r grwpiau ar gyfer yr archwiliadau.

Datblygwyd y cynllun gwaith ymhellach yn y cyfarfod olaf gan ystyried yr archwiliadau a amlinellwyd yn y DGCLI ac unrhyw faterion sy'n codi mewn adolygiadau a gwblheir. Cytunwyd y bydd yr is-grŵp yn cyflawni un neu ddau archwiliad y flwyddyn yn dibynnu ar faint yr archwiliad a ph'un ai a oes angen datblygu adnodd archwilio ar ei gyfer. Bydd yr archwiliadau hyn yn ffurfio rhan o raglen dreigl o archwiliadau ond bydd y grŵp yn cadarnhau pa rai o'r rhain sy'n cael eu cynnal gan aelod-asiantaethau i lywio ein

penderfyniadau. Mae aelodau'r is-grŵp wedi cytuno y dylem ganolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na symiau o fewn ein blaenoriaethau. Mae'r cynllun gwaith wrthi'n cael ei gwblhau a bydd yn nodi'r gwaith sy'n cael ei gynllunio am 24 mis.

Cytunodd Is-Grŵp Archwilio'r BDPRh ar y blaenoriaethau canlynol:

Blaenoriaeth 1 – Archwilio plant sydd wedi cael Prawf Meddygol Diogelu Plant/yn agored i'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i weld a gawsant eu symud at Gynhadledd Diogelu Plant ac, os ydynt wedi'u cofrestru, o dan ba gategori yn benodol mewn perthynas â thystiolaeth o/bod mewn perygl o ADGP.

Mae hyn mewn ymateb i'r cynllun gweithredu o Adolygiad Arfer Plant lle teimlwyd bod ADGP yn amlwg ond heb ei dystiolaethu o fewn y broses Amddiffyn Plant. Diben yr Is-Grŵp Archwilio fydd penderfynu a yw'r trefniadau cofrestru cywir nawr yn cael eu defnyddio a chynlluniau amddiffyn plant yn adlewyrchu'r pryderon ar gyfer y plentyn, yn arbennig mewn perthynas ag ADGP.

Blaenoriaeth 2 – Archwilio plant y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn tynnu caniatâd yn ôl ar gyfer asesiad lles ar ôl cytuno i hynny'n gynharach yn y broses atgyfeirio a gwirio p'un ai a chafodd atgyfeiriad ei wneud wedi hynny i'r Gwasanaethau Plant ar ôl i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl.

Mae hyn yn ffurfio rhan o Raglen Dreigl yr Is-Grŵp Archwilio ac yn unol â thema sy'n dod i'r amlwg o adolygiadau parhaus a chyflawn.

Blaenoriaeth 3 – Cynnal archwiliad Fframwaith Ymholi Critigol o sampl o achosion sy'n amodol ar weithdrefnau CRhB dros gyfnod o 12 mis.

Daeth y blaenoriaeth hon o argymhelliad yn dilyn Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol, ac er bod yr Is-Grŵp wedi cytuno i gyflawnai gwaith mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, cytunwyd y byddai 25% o achosion (a argymhellwyd yn wreiddiol) yn rhy uchel ac mae'r grŵp wrthi'n adolygu'r nifer hwn.

Blaenoriaeth 4 – Monitro archwiliadau a gwaith sicrwydd ansawdd gan asiantaethau unigol

Cytunwyd ar y blaenoriaeth hon i sicrhau bod gan y grŵp drosolwg o unrhyw waith sicrwydd ansawdd parhaus sy'n cael ei wneud gan asiantaethau unigol, gan sicrhau y gall gwybodaeth gael ei bwydo i'r Bwrdd lle bo angen ac nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu o gwbl.

Is-grŵp Archwilio BDORh

Nod y grŵp yw gwella canlyniadau i oedolion ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, drwy fonitro effeithiolrwydd y cydlynu rhwng asiantaethau wrth gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu drwy weithredu dull archwilio amlasiantaethol.

Yn ystod 2017-2018, gwnaeth Is-Grŵp Archwilio'r BDORh gwrdd 4 gwaith, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar ddiwedd 2017. Ers hynny, adolygwyd y Cylch Gorchwyl ac ailystyriwyd ymrwymiad yr asiantaethau i fynychu cyfarfodydd a dyrannu'r adnoddau angenrheidiol i gwblhau archwiliadau. Yn 2017-2018, mae'r Is-Grŵp wedi cwblhau Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019, cytuno ar yr archwiliad cyntaf i'w gyflawni a sefydlu adodd archwilio i'w ddefnyddio mewn perthynas â hyn. Bydd yr archwiliad cyntaf i'w gwblhau yn edrych ar oedolion ag atgyfeiriadau VA1 ailadroddus ac yn ceisio pennu a yw'r broses bresennol ar gyfer diogelu oedolion sydd mewn perygl yng Nghaerdydd a'r Fro yn effeithiol. Mae'r Is-Grŵp wedi cytuno ar y set ddata sydd ei hangen ar gyfer yr archwiliad hwn ac yn casglu data mewn perthynas â hyn. Bydd yr archwiliad yn dechrau

yn Ebrill 2018 ar ôl i'r data gael ei gasglu. Mae'r Is-Grŵp yn gobeithio cwblhau'r Adroddiad Archwilio ar gyfer Mehefin 2018.

Cytunodd Is-Grŵp Archwilio'r BDPRh ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 2018-2019:

- Oedolion ag atgyfeiriadau VA1 ailadroddus
- Nifer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn gan Gartrefi Gofal sy'n rhoi gofal i bobl â Demensia mewn lleoliad gofal a'r canlyniadau (thematig) - 2017-18
- Sicrwydd Ansawdd VA1/Dyletswydd Adrodd
- Ystyried dysgu o Adolygiadau Arfer Oedolion

Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Sefydlwyd y grŵp hwn i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r gymuned yn cael eu hatgyfnerthu. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a chydlynu gweithgareddau cynnwys y cyhoedd wrth ymgynghori â phlant, oedolion mewn perygl, eu gofalgwyr a gweithwyr proffesiynol ar faterion sy'n ymwneud â diogelu.

Yn ystod y cyfnod, cafodd yr is-grŵp hwn ei gyfuno fel swyddogaeth a rennir ar draws y ddau fwrdd er mwyn gwella ein gallu i greu a chyfathrebu naratif diogelu bras parthed oedolion a phlant.

Yn ystod 2017-2018, gwnaeth yr Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu gwrdd 4 gwaith. Y blaenoriaethau ar gyfer yr Is-Grŵp hwn yn 2017-2018 oedd i adolygu a diweddarau'r Cylch Gorchwyl, sicrhau aelodaeth (i sicrhau cynrychiolaeth gan asiantaethau ar draws y maes diogelu plant ac oedolion), sicrhau dull gweithredu cadarn mewn perthynas â'r Wythnos Diogelu Genedlaethol, datblygu gwefan ar gyfer y BDORh wrth ddiweddarau'r wefan BDPRh bresennol ac adolygu a diweddarau'r Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau y cynhwysir diogelu Oedolion a Phlant. Cafodd yr holl flaenoriaethau hyn eu cyflawni.

Datblygodd Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu blaenorol y BDPRh strategaeth gyfathrebu a oedd yn barod i'w defnyddio yn 2016 ac yn ystod 2017-2018; mae'r strategaeth hon wedi'i hadolygu a'i diwygio i sicrhau bod Diogelu Oedolion wedi'i sefydlu'n llawn yn y ddogfen. Bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y BDRh ym mis Mai 2018 i'w dilysu.

Gweithiodd yr Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n agos â'r Uned Fusnes a Thîm y We yng Nghaerdydd i ddiweddarau ac ailddylunio gwefan wreiddiol y BDPRh a datblygu gwefan newydd ar gyfer y BDORh. Cafodd y gwefannau hyn eu lansio ym mis Chwefror 2018 ac maent yn hygyrch iawn i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. Bydd y gwefannau hyn yn cael eu cynnal a'u diweddarau gan yr Uned Fusnes gyda chymorth aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Is-Grŵp.

Mae'r Uned Busnes Diogelu wedi creu amrywiaeth o nwyddau (pennau, nodiadau 'post-it', bagiau, standiau, cortynnau gwddf, taflenni a phosteri) i hysbysebu'r BDPRh a'r BDORh, a ddisbarthwyd yn eang i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn ystod yr Wythnos Diogelu ac wedi hynny drwy aelodau'r Is-Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu gan sicrhau bod yr holl asiantaethau yn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd.

Ynghyd â chyflawni'r blaenoriaethau uchod, mae'r Is-Grŵp hefyd wedi bod yn gweithio'n agos â'r Uned Busnes Diogelu i ddatblygu'r cylchlythyr chwarterol cyntaf. Cyhoeddwyd y cylchlythyr hwn ym mis Chwefror 2018 gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am waith y Byrddau bob chwarter.

Mae'r Is-Grŵp wedi dechrau gweithio ar Gynllun Gwaith 2018-2019. Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer yr Is-Grŵp hwn yn 2018-2019:

1. Codi Proffil y Byrddau Diogelu
2. Ymgysylltu â Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
3. Ymgysylltu ag Oedolion, Gofalwyr ac Ymarferwyr
4. Dysgu Gwersi o Adolygiadau

Is-Grŵp Adolygu Arfer Plant ac Oedolion

Diben yr Is-Grŵp hwn yw gweithredu gofynion statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy ystyried a yw'r achosion a atgyfeirir yn bodloni meini prawf Adolygiad Arfer Oedolion/Plant. Bydd y grŵp hefyd yn monitro unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau arfer i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu. Caiff dysgu sy'n deillio o adolygiadau ei ddosbarthu.

Yn ystod y cyfnod ac eto fel rhan o'n hadolygiad Llywodraethu, cafodd yr is-grŵp hwn ei gyfuno fel swyddogaeth a rennir ar draws y ddau fwrdd.

Yn ystod 2017-2018, gwnaeth yr Is-Grŵp Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion gwrdd saith gwaith. Roedd tri o'r cyfarfodydd yn gyfarfodydd eithriadol gyda'r pwrpas o drafod yr adroddiadau Adolygu Arfer Plant sy'n cael eu cyflwyno i'r BDPRh. Y blaenoriaethau ar gyfer yr Is-Grŵp hwn yn 2017-2018 oedd parhau i ystyried atgyfeiriadau Adolygu Arfer Oedolion wrth iddynt ddod i mewn, monitro adolygiadau parhaus, datblygu canllaw Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion clir i weithwyr proffesiynol (gan gynnwys proffiliau rôl ar gyfer aelodau'r is-grŵp, aelodau'r panel Adolygu Arfer, Cadeiryddion ac Adolygwyr a thempledi o ddogfennau Adolygu Arfer) a datblygu rhaglen dreigl o weithdai gan sicrhau bod themâu a dysgu o Adolygiadau Arfer yn cael eu monitro a'u gweithredu.

Ymdriniwyd â'r holl flaenoriaethau a chomisiynwyd gwaith i sicrhau y gweithredwyd ar y rhain yn briodol.

Cytunwyd ar raglen dreigl o weithdai i ymdrin â'r themâu canlynol sy'n deillio o Adolygiadau Arfer Plant:

- **Llais y Plentyn** (yn ymwneud â chudd-gydymffurfiaeth, sgysiau anodd, capasiti, llais y plentyn a chyfraniad at gynlluniau)
- **Gwaith amlasiantaethol/rhwng awdurdodau** (yn cynnwys rhannu gwybodaeth, dulliau holistig, cyfarfodydd – presenoldeb, adroddiadau a galwadau fideo a lleoliadau addas)
- **Cynllunio, asesu ac adolygu** (yn cynnwys asesu'r plentyn a'r teulu a gofalwyr, asesiadau risg, gwneud penderfyniadau, pwynt cyswllt a chategoreiddio)

Cytunwyd, yn dilyn y gweithdai hyn, y byddai'r hyn a ddysgwyd a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod barn ymarferwyr yn cael ei nodi a'i hystyried.

Cynhaliwyd y gweithdy cyntaf ar Llais y Plentyn ym mis Tachwedd 2017 gyda'r hyn a ddysgwyd a'r argymhellion o'r gweithdy hwn yn cael eu datblygu'n adroddiad y disgwyliwyd iddo gael ei rannu â'r Bwrdd ym mis Mai 2018. Bydd y gweithdai sy'n weddill yn cael eu cynnal rhwng mis Mai 2018 a mis Ionawr 2019 gyda'r bwriad o ychwanegu at y rhaglen pan fydd yr hyn a ddysgwyd o unrhyw Adolygiadau Archwilio a gwblheir wedi cael ei rannu.

Ar ddechrau'r flwyddyn daeth i'r amlwg fod y bwrdd plant yn wynebu her sylweddol yn cwblhau'r ôl-groniad o Adolygiadau Arfer Plant. Yn ogystal ag adlewyrchu gafael aneffeithiol ar y broses Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion, pryderon ynghylch cael gafael ar adolygwyr Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion ac awduron ac anawsterau yn y broses o sicrhau cytundeb y Bwrdd, roedd yn amlwg uwchlaw popeth arall fod absenoldeb uned fusnes effeithiol ar gyfer y ddau fwrdd am 2 flynedd wedi bod

yn ffactor allweddol yn tanseilio gallu'r byrddau a'r broses Adolygu Arfer Plant i weithredu'n effeithiol.

Mae camau mawrion wedi'u cymryd i ddatgloi'r heriau rhyng-gysylltiedig hyn, gan greu gwir fomentwm o ran goresgyn yr ôl-groniad o Adolygiadau Arfer Plant gan weithredu fel sail i effeithiolrwydd cyffredinol y bwrdd. Mae'r rhain yn cynnwys -

- Sefydlu Uned Fusnes ar y cyd i'r Byrddau, sydd wedi'i staffio'n llawn ac sy'n effeithiol ac egnïol iawn
- Ymuno â chyfarfodydd chwarterol y byrddau a'r digwyddiad undydd gyda ffocws cryf ar y cyd-flaenoriaethau agenda allweddol, gan gynnwys polisi, dadansoddi, datblygu strategol a hanfodion effeithiolrwydd busnes
- Trefniadau cyd-gadeirio cryfach dan arweiniad Cyfarwyddwyr â chefnidiroedd arbenigol mewn diogelu oedolion a phlant
- Strwythurau is-grŵp cyffredin diwygiedig dan arweiniad uwch weithwyr bwrdd proffesiynol priodol, gan alluogi ffocws mwy effeithiol ar gyflawni yn erbyn blaenoriaethau blynyddol
- Agenda bwrdd symlach i alluogi penderfyniadau gwell, mwy o gyfranogiad, trafodaeth â mwy o ffocws a hyrwyddo dysgu a herio rhyng-asiantaeth
- Symudiad o ran cwblhau Adolygiadau Arfer Plant nad ydynt wedi'u gorffen
- Gwefan sydd wedi'i lansio o'r newydd
- Adnewyddu hyfforddiant ymysg gweithwyr proffesiynol oedolion a phlant
- Datblygu Canllaw Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion i bob gweithiwr proffesiynol sy'n nodi canllawiau a threfniadau llywodraethu clir

Yn ystod 2017-2018, roedd BDPRh Caerdydd a'r Fro yn gweithio ar 5 Adolygiad Arfer Plant gan gynnwys adolygiad o'r achos proffil uchel iawn yn ymwneud â llofruddiaeth Elsie Scully-Hicks. Daeth yr holl baneli Adolygu Arfer Plant ynghyd o fewn amserlen benodol gyda gwaith yn parhau i sicrhau gwelliant o ran prydlongdeb adolygiadau. Cafodd cysylltiadau eu gwneud gyda Llywodraeth Cymru ar nifer o achlysuron fel y gofynnwyd yng Nghanllaw SWBA i'w hysbysu o'r Adolygiadau Arfer Plant a gomisiynwyd a gwnaed gwaith cydweithredol gyda Byrddau Rhanbarthol eraill er mwyn sicrhau ymagwedd gadarnhaol at broses y Panel Adolygu Arfer Plant. Mae'r Is-grŵp Adolygu Arfer Plant/Adolygu Arfer Oedolion yn cydnabod bod gwaith ar Adolygiadau Arfer Oedolion yn symud yn ei flaen, fodd bynnag, mae'r Is-Grŵp eisoes yn ystyried rhagor o atgyfeiriadau ac rydym yn hyderus y gallwn ddefnyddio sgiliau aelodau ein His-Grŵp a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod proses effeithiol yn parhau er mwyn rheoli'r atgyfeiriadau hyn.

Nifer yr Adolygiadau Arfer Plant/Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (Ebrill 2017 - Mawrth 2018):

	Caerdydd	Bro Morgannwg
Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd	4	3
Adolygiadau Arfer Plant y cytunwyd arnynt	0	0
Adolygiadau Arfer Plant parhaus	5	1
Adolygiadau Arfer Plant a gwblhawyd	1	0
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol y cytunwyd arnynt	1	0
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol parhaus	2	0

Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a gwblhawyd	0	0
--	---	---

Nifer yr Adolygiadau Arfer Oedolion/Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol (Ebrill 2017 - Mawrth 2018):

	Caerdydd	Bro Morgannwg
Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd	3	1
Adolygiadau Arfer Oedolion y cytunwyd arnynt	2	0
Adolygiadau Arfer Oedolion parhaus	2	0
Adolygiadau Arfer Oedolion a gwblhawyd	0	0
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol y cytunwyd arnynt	0	1
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol parhaus	0	1
Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol a gwblhawyd	0	0

Creu Cysylltiadau ag Adolygiadau Dynladdiad Domestig

Trefnwyd Adolygiad Arfer Plant yn 2017 lle crëwyd cysylltiadau clir â'r Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD). Er mwyn sicrhau cysondeb a gwaith cydlynol, cydgysylltodd y Panel Adolygu Adfer Plant a'r Is-Grŵp yn agos â Thîm Partneriaeth Gymunedol Caerdydd yn ystod yr adolygiadau hyn. Mae hyn yn unol â Chanllaw DGCLI, Rhifyn 2, Adrannau 6.7 a 6.8.

Is-grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau

Bydd y grŵp yn cyfrannu at lunio ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau i gydlynu'r hyn a wna partneriaid ac aelodau'r Bwrdd, at ddibenion diogelu oedolion a phlant ac atal cam-drin, esgeuluso a ffurfiau eraill ar niwed i oedolion a phlant yn ardal y Bwrdd. Bydd y grŵp hefyd yn sicrhau bod y BDPRh a'r BDORh yn rhan o'r gwaith ar y polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol.

Yn ystod hunan-ddadansoddiad yn 2017 ac eto fel rhan o'n hadolygiad llywodraethu, cytunodd y Byrddau fod angen Is-Grŵp pellach i ymgysylltu'n llawn â'r broses o ddatblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a'r polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau rhanbarthol. Cytunwyd y dylid cyfuno'r is-grŵp hwn fel swyddogaeth a rennir ar draws y ddau fwrdd er mwyn gwella effeithlonrwydd a darpariaeth gydlynol. Yn ystod 2017-2018, gwnaeth yr Is-Grŵp hwn gwrdd ddwywaith. Y blaenoriaethau ar gyfer y grŵp hwn oedd datblygu a chytuno ar Gylch Gorchwyl, sicrhau bod yr aelodau'n cynnwys yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant, nodi polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau sydd wedi'u mabwysiadu ar hyn o bryd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a dod o hyd i fylchau a'r angen i adolygu'r dogfennau hyn. Mae'r Is-Grŵp eisoes wedi cwblhau swm sylweddol o waith o ran nodi'r amrywiaeth o bolisiâu a gwaith comisiynu ar adolygu nifer o'r polisiâu hyn, gan alinio oedolion a phlant lle y bo'n briodol. Mae'r Is-Grŵp wrthi'n gweithio ar adolygu'r dogfennau hyn a chynhyrchu rhestr o bolisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau presennol gyda diweddariadau ar ba ddogfennau sydd i'w hadolygu a phryd. Mae'r Is-Grŵp wedi cytuno ar Gynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019, gan gynnwys y blaenoriaethau canlynol:

- **Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau presennol** (gan gynnwys cwmpasu'r polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau sydd eisoes ar gael yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Chymru Gyfan ac adolygu a diweddarau polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau presennol i sicrhau eu bod yn gyfredol a pherthnasol)
- **Adolygu polisiâu, gweithdrefnau a phrotocolau o ranbarthau eraill a'u mabwysiadu yn ôl yr angen** (gan gynnwys adolygu unrhyw bolisiâu newydd/wedi'u diweddarau o ranbarthau eraill a dosbarthu'r rhain i'r Is-Grŵp i'w trafod, a chyflwyno argymhellion i'r BDPRh a'r BDORh)
- **Argymhellion Adolygu** (gan gynnwys unrhyw waith a gomisiynwyd gan y Bwrdd ar gyfer yr Is-Grŵp yn deillio o Adolygiadau Arfer Plant, Adolygiadau Arfer Oedolion, Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol ac unrhyw adolygiadau perthnasol eraill)

Yn ystod 2017-2018, adolygodd a diwygiodd yr Is-Grŵp bolisi Hunan-Esgeuluso Gogledd Cymru i'w alinio â gwaith yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd disgwyl i hwn gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2018.

Grŵp Thematig Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Er mwyn monitro a thystiolaethu'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru i hyn fod yn flaenoriaeth i'r Byrddau Diogelu, sefydlodd BDPRh Grŵp Strategol CRhB amlasiantaethol.

Roedd y grŵp Strategol CRhB hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu mewn perthynas â Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol (FfPA) a gomisiynwyd yn 2015. Yn ystod 2017-2018 gwnaeth y grŵp hwn gwrdd 4 gwaith. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, canolbwyntiodd y grŵp ar fonitro'r arfer CRhB o fewn y rhanbarth a'r Cynllun Gweithredu FfPA. Gan weithio'n agos â'r Uned Busnes Diogelu, llwyddodd y grŵp i gyflwyno adroddiad sylweddol i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r gwaith sy'n mynd rhagddo ledled y rhanbarth mewn perthynas â'r 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (Cymru)'. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at yr holl waith gwyb sy'n cael ei wneud mewn asiantaethau partner gan gynnig tystiolaeth i gefnogi hyn. Mae'r grŵp hefyd yn gweithio ar sicrhau y gall y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu FfPA gael eu tystiolaethu a'u cymeradwyo. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, cytunodd y grŵp fod gwaith CRhB nawr yn fusnes craidd o fewn asiantaethau ac y gallai fodloni'r Bwrdd fod angen i'r grŵp hwn gymryd 'cam i lawr'.

Cyflwynwyd y cynnig hwn i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2018 a chytunodd y Bwrdd y byddai'r Grŵp Thematig hwn yn cael ei ddisodli gan Grŵp Thematig Ecsbloetiaeth yn cwmpasu gwaith Diogelu Oedolion a Phlant.

iii. CYDWEITHIO GYDA BYRDDAU DIOGELU ERAILL A LLYWODRAETH CYMRU

Mae'r BDORh a'r BDPRh yn gweithio'n agos gyda nifer o ardaloedd gwahanol er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol a rhannu arfer gorau.

Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill

Mae'r cysylltiadau â Byrddau Diogelu Rhanbarthol eraill yn cryfhau gyda'r Rheolwyr Busnes ar draws y rhanbarthau'n cwrdd â Llywodraeth Cymru yn chwarterol a llawer o waith yn mynd rhagddo i sicrhau bod arfer da a pholisïau'n cael eu rhannu lle y bo'n briodol. Mae Adolygiadau Arfer Plant ac Oedolion yn cael eu rhannu'n rheolaidd i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu'n cael ei rannu ar draws y rhanbarthau. Mae'r Rheolwyr Busnes wrthi'n gweithio ar sicrhau cysondeb ar draws y Byrddau Diogelu Rhanbarthol o ran fformat dogfennau sy'n cael eu cyhoeddi (e.e. Cynlluniau Blynyddol, Adroddiadau Blynyddol a Pholisïau a Gweithdrefnau). Mae Cydlynwyr Busnes Cymru Gyfan hefyd yn cwrdd bob chwarter i drafod gwaith parhaus ac i sicrhau dull gweithredu cadarn mewn perthynas â'r Wythnos Diogelu Genedlaethol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwnaed cysylltiadau hefyd â Bwrdd Diogelu Darlington er mwyn rhannu enghreifftiau mewn perthynas â setiau data amlasiantaethol.

Cysylltwyd â'r Bwrdd Diogelu yn Barnsley a ofynnodd am gael defnyddio 'Protocol BDPRh Caerdydd a'r Fro ar gyfer Salwch Ffug a Chyflyrau Cysylltiedig' er mwyn datblygu ei brotocol ei hun. Cytunodd yr Is-Grŵp Polisiâu, Gweithdrefnau a Phrotocolau ar hyn, ond nododd y grŵp yn glir i'r Bwrdd Diogelu yn Barnsley fod Protocol Cymru Gyfan bellach yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru a bod 'Protocol BDPRh Caerdydd a'r Fro ar gyfer Salwch Ffug a Chyflyrau Cysylltiedig' yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae Simon Burch, sy'n gynrychiolydd o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, yn mynychu cyfarfodydd y Byrddau bob tri mis ac mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y BDORh a'r BDPRh. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau y cynrychiolwyd BDRh Caerdydd a'r Fro ynddynt. Yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, cynhaliodd yr NISB ddigwyddiad Diogelu Mewn Chwaraeon – daeth llawer o weithwyr proffesiynol o Gaerdydd a'r Fro iddo.

Llywodraeth Cymru

Cysylltir â Llywodraeth Cymru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn cael y newyddion diweddaraf am Adolygiadau Arfer Plant ac Oedolion fel yr amlinellir yn DGCLI (2014). Yn ogystal, gwneir cysylltiadau yn ystod y cyfarfodydd pob deufis gyda Llywodraeth Cymru a Rheolwyr Busnes Byrddau Rhanbarthol eraill.

RHEOLI ADNODDAU

i. CYLLIDEB Y BWRDD

Yn 2017-2018, cytunodd y Bwrdd ar gyllid gan yr holl asiantaethau fel a ganlyn:

Sefydliad	Cyfraniad Arfaethedig wedi'i Gyfuno (%)	Rhaniad Sefydliadol	Rhaniad Presennol o'r Cyfraniad at BRhDP (%)	Rhaniad o'r Cyfraniad Arfaethedig (£)
Awdurdodau Lleol	60%	Cyngor Caerdydd	67%	£60,000.00
		Cyngor Bro Morgannwg	33%	£30,000.00
Heddlu De Cymru	10%	Heddlu De Cymru	100%	£15,000.00
Iechyd	25%	BIP Caerdydd a'r Fro	81.25%	£30,468.75
		GIG Felindre	18.75%	£7,031.25
Cyfnod Prawf	5%	Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	50%	£3,750.00
		Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy	50%	£3,750.00
CYFANSWM	100%			£150,000

ii. GWARIANT Y BWRDD

Defnyddiwyd yr uchod i reoli busnes y Bwrdd, gan gynnwys y canlynol:

Gwariant	Cost wirioneddol
COSTAU STAFFIO	
Rheolwr Busnes Strategol	£39,606.07
Cydlynnydd Plant	£17,360.82
Cydlynnydd Oedolion	£17,360.82
Gweinyddwr/wyr	£14,101.96
Ychwanegol	£0.00
Cyfanswm:	£88,429.67
ADOLYGIADAU ARFER PLANT AC OEDOLION	
Adolygwyr allanol	£31,065.00
Digwyddiadau Dysgu	£876.48
Deunyddiau gweinyddu (cronolegydd ac argraffu)	£7,058.71
Cyfanswm:	£39,000.19
DATBLYGU	
Llogi ystafell/lleoliad	£2,956.83
Lluniaeth Staff a Chyfarfod	£698.40
Deunyddiau gweinyddu	£247.00
Cyfanswm:	£3,902.23
GWEINYDDOL	
Electroneg	£669.98
Teithio	£103.48
Cynhaliaeth	£53.24
Arall	£1,037.92
Cyfanswm:	£1,864.62
YCHWANEGOL	
Premiymau Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr	£28.54
Ardoll Prentisiaeth	£307.83
Premiymau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus	£122.72

Premiymau Yswiriant Amrywiol	£72.47
Arall (gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol, gwasanaethau diogelwch)	£114.00
Cyfanswm:	£645.56

Cyfanswm gwariant: £133,842.27

CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â'r Uned Busnes Diogelu am unrhyw wybodaeth/arweiniad ychwanegol trwy unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:

Cyfeiriad:

Uned Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Ystafell 342

Neuadd y Sir

Caerdydd

CF10 4UW



(02920) 871891

E-bost: BDRhCaerdyddarFro@caerdydd.gov.uk